
Nursing & Midwifery Council

Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

# Adolygiad Blynyddol 2018–2019

## Cyflawni ein haddewidion

Fel y rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer nyrsys a bydwragedd yn y DU, a chymdeithion nyrsio yn Lloegr, **rydym yma er mwyn hwyluso gofal gwell, mwy diogel.**



Rydym yn pennu'r safonau addysg ar gyfer pob gweithiwr proffesiynol ym maes nyrsio a bydwreigiaeth. Pan fyddant yn barod i ymarfer, byddwn yn eu croesawu i gofrestr o bron **700,000 o weithwyr proffesiynol ym maes nyrsio a bydwreigiaeth.**

Ar ôl cofrestru, rhaid i bob gweithiwr proffesiynol gadw at y safonau yn ein Cod er mwyn sicrhau y gall pobl fod yn hyderus y byddant yn cael gofal diogel o ansawdd uchel gan nyrsys, bydwragedd ac, yn Lloegr, gymdeithion nyrsio. Rydym hefyd yn hyrwyddo dysgu gydol oes drwy ailddilysu, gan annog gweithwyr proffesiynol i barhau i ddatblygu eu sgiliau drwy gydol eu gyrfaoedd.

> "Rydym yn hyrwyddo dysgu gydol oes drwy ailddilysu"

Nursing & Midwifery Council



> Rydym yn ymrwymedig i fod yn rheoleiddiwr sy’n garedig, yn drugarog, yn agored ac yn deg

**Rydym am annog gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol i fod yn agored a dysgu er mwyn gwella gofal a chadw’r cyhoedd yn ddiogel.** Ar yr achlysuron pan fydd rhywbeth yn mynd o chwith ac y bydd pobl yn wynebu risg, gallwn gamu i mewn i ymchwilio i’r mater a chymryd camau gweithredu, gan roi llais i’r bobl yr effeithir arnynt, gan gynnwys y bobl sy’n defnyddio gwasanaethau, cleifion, eu gofalwyr a’u teuluoedd yn y broses.

Mae’r adolygiad hwn yn crynhoi ein gwaith y llynedd, yn enwedig ein hymateb i argymhellion yr Awdurdod Safonau Proffesiynol yn *Lessons Learned Review.*

Rydym wedi canolbwyntio ar sicrhau bod pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn, gan eu trin ag urddas a pharch, a’u cefnogi’n well. Rydym hefyd yn ymgorffori diwylliant o fod yn dryloyw ac yn agored, gan fod yn onest pan fydd pethau’n mynd o chwith a pharhau i ddysgu ac unioni pethau. Rydym yn ymrwymedig i fod yn rheoleiddiwr sy’n garedig, yn drugarog, yn agored ac yn deg.

# Ein heffaith mewn niferoedd

**Ar 31 Mawrth 2019, roedd:**



**653,544**
o nyrsys


**36,916**
o fydwragedd

**7,288**
o nyrsys a bydwragedd


**489**
o gymdeithion nyrsio

**Cyfanswm o 698,237**
ar ein cofrestr

## Perfformiad addasrwydd i ymarfer



Rhoddwyd
**84%**
o orchmynion interim ar waith o fewn 28 diwrnod ar ôl i bryderon gael eu codi
(2017–2018: 87 y cant)



Gwnaethom gau
**86%**
o achosion o fewn 15 mis
(2017–2018: 80 y cant)

## Perfformiad cofrestru

Cwblhawyd
**98.5%**
o geisiadau cofrestru o'r DU o fewn 10 diwrnod
(2017–2018: 97.9 y cant)

Cwblhawyd
**100%**
o geisiadau cofrestru o'r UE/o dramor o fewn 60 diwrnod
(2017–2018: 98.5 y cant)

Atebwyd tua
**857 o alwadau y dydd**
(2017–2018: 1,000)
gan godi i 986 ar ein hadegau prysuraf

## Nifer yr atgyfeiriadau addasrwydd i ymarfer

**5,373**
(2018–2019)

**5,509**
(2017–2018)

**5,476**
(2016–2017)



## Ffigurau o ran addasrwydd i ymarfer 2018–2019

### 1 Asesiad rhagarweiniol

Pan fydd pryderon yn cael eu rhannu â ni ynglŷn ag addasrwydd rhywun i ymarfer **byddwn yn cadarnhau bod yr unigolyn dan sylw ar ein cofrestr ac yn asesu p'un a oes angen ymchwilio'n llawn i'r pryderon.**

Cawsom **5,373** **o bryderon newydd**

### 2 Gorchmynion interim

Lle bo angen, **gall ein paneli annibynnol gymryd camau brys dros dro ar unrhyw adeg er mwyn amddiffyn y cyhoedd** wrth i ni ymchwilio i'r pryderon a godwyd.

Cytunodd ein paneli i wneud y canlynol:

### 3 Ymchwiliadau

**Lle bo angen, byddwn yn ymchwilio'n llawn i'r pryderon a godwyd ynglŷn ag addasrwydd rhywun i ymarfer.**

Ar ddiwedd yr ymchwiliad, bydd ein Harchwilwyr Achos yn penderfynu p'un a oes angen cymryd unrhyw gamau pellach i amddiffyn y cyhoedd. Gall Archwilwyr Achos benderfynu peidio â chymryd unrhyw gamau pellach os byddant yn dod i'r casgliad nad oes angen cymryd camau rheoleiddio mewn perthynas â'r pryderon neu os yw'r nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio wedi cymryd camau digonol i wella ei hymarfer/ei ymarfer.

Gwnaethom gwblhau **1,638** **o ymchwiliadau**

**Penderfynodd ein Harchwilwyr Achos wneud y canlynol:**

### 4 Dyfarnu

**Lle bo angen, caiff achosion eu dyfarnu gan ein paneli annibynnol.**

Y paneli sy'n penderfynu a oes angen cymryd camau rheoleiddio i amddiffyn y cyhoedd. Gall y paneli benderfynu peidio â chymryd unrhyw gamau pellach os byddant yn dod i'r casgliad nad yw'r honiadau wedi'u cadarnhau neu os yw'r nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio wedi cymryd camau digonol i wella ei hymarfer/ei ymarfer.

**Gwnaeth ein paneli ddyfarnu** **661** **o achosion**

**Penderfynodd ein paneli wneud y canlynol:**

Gwnaethom benderfyniadau ynghylch **5,379** o achosion

**Gwnaethom benderfynu** bod angen **ymchwilio'n llawn i** **1,990** o achosion

**Gwnaethom benderfynu** nad oedd angen **ymchwilio'n llawn i** **3,389** o achosion

Rhoi gorchmynion **atal dros dro interim** mewn **238** **o achosion**

Rhoi gorchmynion **amodau ymarfer interim** mewn **268** **o achosion**

Peidio â chymryd **unrhyw gamau pellach** mewn **963** **o achosion**

**Rhoi cyngor, rhoi rhybudd,** neu **gytuno ar ymrwymiadau** mewn **155** **o achosion**

**Atgyfeirio** **520** **o achosion** **am ddyfarniad**

**Tynnu'r unigolyn** oddi ar y gofrestr mewn **162** **o achosion**

Atal yr unigolyn rhag bod ar y gofrestr dros dro mewn **231 o achosion**

Rhoi gorchmynion amodau ymarfer mewn **99 o achosion**

**Rhoi rhybuddion mewn** **57 o achosion**

**Peidio â chymryd unrhyw gamau pellach mewn** **112 o achosion**

## Ar 31 Mawrth 2019, roedd:

**83**
**o sefydliadau addysg**
wedi'u cymeradwyo i ddarparu rhaglenni nyrsio neu fydwreigiaeth
(i fyny o 81 ar 31 Mawrth 2018)

**938**
o raglenni
**nyrsio a bydwreigiaeth cymeradwy**

**28**
**o sefydliadau addysg**
wedi'u cymeradwyo i ddarparu rhaglenni prentisiaeth gradd nyrsio





## Trosiant staff

Ar 31 Mawrth 2019,
**trosiant ein cyflogeion oedd**
**21.6%**
(2017–2018: 21.9 y cant)

Ar 31 Mawrth 2019,
**canran y cyflogeion newydd a oedd yn gadael o fewn chwe mis oedd**
**19.6%**
(2017–2018: 27.8 y cant)

# Goruchwylio ein gwaith

**Mae'r Awdurdod Safonau Proffesiynol yn goruchwylio ein gwaith ac yn adrodd i'r Senedd arno, yn ogystal â rheoleiddwyr iechyd a gofal eraill.**

Ym mis Ebrill 2019, cyhoeddodd yr Awdurdod ei adolygiad blynyddol o'n perfformiad ar gyfer 2017–2018. Roedd o'r farn ein bod yn cyrraedd 22 o'r 24 o Safonau Rheoleiddio Da. Y safonau na lwyddwyd i'w cyrraedd yw dwy o'r deg safon o ran addasrwydd i ymarfer. Rydym yn cymryd canfyddiadau'r Awdurdod o ddifrif a dangosir y cynnydd rydym wedi'i wneud i wella ein hymarfer ar y tudalennau canlynol.

> Gwnaethom gyrraedd 22 o'r 24 o safonau rheoleiddio da

# Uchafbwyntiau'r flwyddyn

## Cymdeithion nyrsio: rôl broffesiynol newydd

**Gwnaethom groesawu'r cymdeithion nyrsio cyntaf ar ein cofrestr ym mis Ionawr 2019** yn dilyn dwy flynedd o baratoi, gyda phartneriaid a rhanddeiliaid, i reoleiddio'r rôl broffesiynol newydd hon yn Lloegr. Mae cymdeithion nyrsio yn cefnogi gofal gwell a mwy diogel i bobl o bob oedran ym mhob sefydliad iechyd a gofal cymdeithasol yn Lloegr. Mae ein safonau'n sicrhau bod ganddynt y sgiliau sydd eu hangen arnynt.

> "Mae cymdeithion nyrsio yn cefnogi gofal gwell a mwy diogel i bobl o bob oedran"

## Cynnal ein cofrestr

Eleni rydym wedi ei gwneud hi'n haws i bobl â'r sgiliau cywir ymuno â'n cofrestr.

Roedd y newidiadau hyn yn cynnwys gwella ein gwefan a chynyddu ein gwasanaethau ar-lein.

Gofynnwn i bobl gwblhau nifer o ddatganiadau mewn perthynas â'u hiechyd a'u cymeriad fel rhan o unrhyw gais i gofrestru. Eleni, gwnaethom wella ein canllawiau ar iechyd a chymeriad er mwyn rhoi cyngor gwell i bobl ar sut i ddatgelu cyflyrau sy'n gysylltiedig ag anableddau'n briodol.

Gwnaethom ddechrau adolygu ein proses gofrestru ar gyfer y sawl a hyfforddwyd dramor – y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd/ Ardal Economaidd Ewropeaidd. Gwnaethom gyflwyno rhai newidiadau ar unwaith, er enghraifft galluogi ymgeiswyr o dramor i wneud cais i weithio yn y DU heb orfod gweithio am o leiaf 12 mis ar ôl cymhwyso. Gwnaethom hefyd wella ein canllawiau a'n deunyddiau ategol i ymgeiswyr.

Mae ailddilysu yn galluogi'r gweithwyr proffesiynol sydd ar ein cofrestr i ddangos y gallant barhau i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. 2018–2019 oedd trydedd flwyddyn weithredol y broses ailddilysu. Mae canfyddiadau o werthusiad annibynnol yn awgrymu bod ailddilysu'n parhau i gael ei werthfawrogi gan gyflogwyr a gweithwyr proffesiynol.



## Addasrwydd i ymarfer: dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn

**Ym mis Gorffennaf 2018, ar ôl ymgynghoriad cyhoeddus ac ymchwil ansoddol,** gwnaethom gytuno ar gyfeiriad strategol newydd ar gyfer addasrwydd i ymarfer.

Mae ein dull gweithredu newydd yn canolbwyntio ar yr unigolyn. Bydd yn annog diwylliant o fod yn agored a dysgu mewn sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol sy'n cefnogi nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio i ddysgu o gamgymeriadau a mynd i'r afael â phryderon am eu hymarfer.

Gwnaethom gydweithio â rhanddeiliaid i sicrhau bod y dull gweithredu newydd yn llwyddiannus. Cynhaliwyd pum cynllun peilot rhwng mis Medi 2018 a mis Mawrth 2019 er mwyn profi ffyrdd newydd o weithio. Yn 2019–2020, byddwn yn rhoi ein dull gweithredu newydd ar waith.

## Cyflwyno Gwasanaeth Cymorth Cyhoeddus

Ers i *Lessons Learned Review* yr Awdurdod Safonau Proffesiynol gael ei gyhoeddi, rydym wedi cymryd camau pwysig i fod yn fwy caredig a chanolbwyntio'n fwy ar yr unigolyn yn ein gwaith. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno ein Gwasanaeth Cymorth Cyhoeddus newydd, sy'n cefnogi cleifion a theuluoedd sy'n codi pryderon am nyrsys, bydwragedd neu gymdeithion nyrsio.



### Mae'r Gwasanaeth Cymorth Cyhoeddus wedi cyflawni llawer o bethau eleni, gan gynnwys:

- hyfforddi ein timau i nodi pan fydd angen cymorth ychwanegol ar rywun
- lansio adran newydd o'r wefan sy'n darparu gwybodaeth well
- cynnig cyfarfodydd â phobl sydd wedi gwneud atgyfeiriad
- sefydlu llinell cymorth emosiynol annibynnol ar y cyd â'r Cyngor Meddygol Cyffredinol

Mae grŵp llywio sy'n cynnwys grwpiau cleifion, teuluoedd, cyflogwyr a sefydliadau eraill ledled y DU wedi cefnogi'r Gwasanaeth Cymorth Cyhoeddus.

**Meddai'r person cyntaf i gysylltu â'r gwasanaeth yn uniongyrchol:**

> **"Mae fy marn ar yr NMC wedi'i gwrthdroi'n llwyr. O'r diwedd, gwelais dosturi, ymatebion cyflym, ac roedd pobl yn siarad â fi fel rhywun cyfartal. Rwy'n credu y dylai'r NMC fod yn falch iawn o'r ffordd mae ei Wasanaeth Cymorth Cyhoeddus yn datblygu."**



## Paratoi gweithwyr proffesiynol y dyfodol

Mae ein safonau addysg yn rhoi'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen ar nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio er mwyn darparu gofal diogel o safon uchel nawr ac yn y dyfodol.

**Yn 2018, cyflwynwyd ein safonau uchelgeisiol ar gyfer nyrs y dyfodol, gan nodi'r sgiliau a'r wybodaeth y bydd eu hangen ar y genhedlaeth nesaf o nyrsys.** Gwnaethom ymgynghori ar ein safonau yr un mor uchelgeisiol i ad-drefnu addysg a hyfforddiant bydwreigiaeth yn y DU.

Gwnaethom newid y ffordd rydym yn sicrhau ansawdd rhaglenni addysg, gan gyflwyno safonau newydd sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer sefydliadau addysg a'u partneriaid sy'n cynnig lleoliadau ymarfer. Mae'r safonau'n hwyluso amrywiaeth ehangach a mwy arloesol o raglenni, gan gynnwys prentisiaethau.

Gwnaethom hefyd gyflwyno ymwelwyr lleyg (hynny yw, pobl nad ydynt ar ein cofrestr) fel rhan o'n hymweliadau cymeradwyo ar gyfer rhaglenni cyn cofrestru. Rhaid i brifysgolion a sefydliadau addysg eraill bellach ddangos pa mor dda y maent yn rhyngweithio â'r sawl sy'n defnyddio gwasanaethau, cleifion a'u gofalwyr.


## Ein pobl a'n TG

**Mae pobl yn hanfodol i'n llwyddiant.** Gwnaethom barhau i weithredu ein Strategaeth Pobl, gan ystyried sut y gallwn adlewyrchu ein gwerthoedd (tegwch, pobl, tryloywder) a sefydlu ymddygiadau cadarnhaol. Gwnaethom fuddsoddi mewn rhaglen datblygu arweinyddiaeth ar gyfer rheolwyr a dechrau gweithio ar ein polisïau cyflogaeth a'n trefniadau graddio a chyflog.

Gwnaethom ddechrau moderneiddio ein systemau TG hen ffasiwn fel y gallwn gynnig profiad gwell i'n cydweithwyr, y gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr, y cyhoedd a'n partneriaid. **Bydd y gwaith hwn yn parhau yn ystod 2019–2020.**

# Incwm a gwariant

Yn 2018–2019, ein hincwm oedd £92 miliwn. Gwnaethom wario £81.6 miliwn. Dengys y diagram isod ddadansoddiad o’r ffordd y gwariwyd yr arian hwn.




Rydym yn cyhoeddi'r hyn rydym wedi'i wario mewn blynyddoedd blaenorol yma:
www.nmc.org.uk/reports-and-accounts



> Mae pobl wrth wraidd popeth a wnawn

## Cydgynhyrchu ein strategaeth ar gyfer 2020–2025

Ebrill 2020

Rydym yn gwybod bod angen i ni barhau i newid a gwella er mwyn gwella gofal a sicrhau bod pobl wrth wraidd popeth a wnawn.

Dyna'r rheswm pam rydym yn gweithio gyda phobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal, y gweithwyr proffesiynol sydd ar ein cofrestr, a'n partneriaid er mwyn cydgynhyrchu strategaeth hirdymor newydd.  Bydd y strategaeth honno'n mapio ein trywydd tuag at reoleiddio maes nyrsio a bydwreigiaeth yn well.

**Byddwn yn lansio ein strategaeth newydd ym mis Ebrill 2020.**

Nursing & Midwifery Council

www.nmc.org.uk